| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG** |
| **DYDDIAD:** | **18 RHAGFYR 2019** |
| **TEITL:** | **CAIS AM DRWYDDED EIDDO - CANOLFAN GARDDIO CAMLAN** |
| **PWRPAS:** | **ER PENDERFYNIAD** |
| **AWDUR:** | **PENNAETH AMGYLCHEDD** |

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Canolfan Garddio Camlan, Siop Ffarm a Chaffi, Dinas Mawddwy, Machynlleth, SY20 9LN gan yr ymgeisydd cwmni cyfyngedig Camlan Ltd. Mae'r ymgeisydd yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer Siop Ffarm a Chaffi sydd wedi sefydlu oddi fewn cynhwysydd cludo wedi'u trosi, yn gwerthu'n bennaf cynnyrch Cymreig, ffrwythau a llysiau. Mae ganddynt fwriad cynnal oddeutu deuddeg o ddigwyddiadau dros dro megis nosweithiau bwyty, digwyddiadau siopau hwyr y nos a the prynhawn.

1.2 Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol ar ac oddi ar yr eiddo.

1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.

1.4 Derbyniwyd sylwadau gan breswylydd cyfagos ac Awdurdod Parc Eryri, wedi crybwyll yn rhan tri o'r adroddiad.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

| GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG | TRWYDDED ARFAETHEDIG |
|---|---|
| **Oriau Agor / Opening Hours:** | Dydd Llun/Monday 09:00-18:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-18:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00-18:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00-18:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00-18:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-18:00<br>Dydd Sul/Sunday 10:00-16:00 |
| **Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol** -<br>Ar ac Oddi ar yr Eiddo/On and Off Premises | Dydd Llun/Monday 09:00-18:00<br>Dydd Mawrth/Tuesday 09:00-18:00<br>Dydd Mercher/Wednesday 09:00-18:00<br>Dydd Iau/Thursday 09:00-18:00<br>Dydd Gwener/Friday 09:00-18:00<br>Dydd Sadwrn/Saturday 09:00-18:00<br>Dydd Sul/Sunday 10:00-16:00 |

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant i staff, i gynnwys polisi her 21 gwerthiant alcohol, cofnod gwrthod gwerthiant ac adnewyddu hyfforddiant gwerthu alcohol.

- Asesiad risg o’r eiddo, pecynnau cymorth cyntaf ar gael a ni fydd cwsmeriaid yn cael mynd a photeli a gwydrau y tu allan i’r eiddo.
- Bwriedir derbyn nwyddau i’r eiddo oddi fewn oriau masnachu, a bydd trefn gwaredu a gwastraff.
- Bydd plant yn gorfod cael eu goruchwylio gan riant neu warchodwr, a bydd staff yn gweithredu  os bydd risg at eu hiechyd neu diogelwch.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o’r cais

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

| YMATEBION | SYLWADAU |
|---|---|
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Sylwadau ac amodau |
| Preswylwyr Cyfagos | Llythyr gwrthwynebu |

### 3.2 Sylwadau Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Derbyniwyd sylwadau ac amodau gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yn amodi o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ni chaniateir i weithredu tu allan i’r oriau 8:30 i 20:30 Dydd Llun i Ddydd Sadwrn a 10:00 i 16:00 ar Ddydd Sul a Gwyliau’r Banc. Awgrymir i’r ymgeisydd ymhelaethu os ydyw’n bwriadu cwtogi oriau sydd wedi datgan ar y ffurflen gais, o ran amseroedd nad ydynt yn safonol - er mwyn cydymffurfio gyda’r amod yma.

### 3.3 Sylwadau Preswylwyr Cyfagos

Derbyniwyd un sylwad ddilys gan breswylwyr cyfagos yn mynegi pryder o ran sŵn y hwyr.

## 4 ARGYMHELLIAD

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo’r  cais – os yw’r ymgeisydd yn cytuno addasu ei amseriadau ansafonol i gydymffurfio a’i hamodau cynllunio sydd wedi gosod gan y Parc Cenedlaethol, ac yn unol â gofynion y Ddeddf  Trwyddedu 2003.